INSHOU48

Datblygu arferion sy'n hyrwyddo dewis a lles pob unigolyn a’u hamddiffyn

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu arferion sy'n hyrwyddo dewis a lles pob unigolyn a'u hamddiffyn. Mae'n ymwneud â datblygu, cynnal a gwerthuso systemau, a chynorthwyo eraill i hyrwyddo hawliau, cyfrifoldebau, cydraddoldeb ac amrywiaeth unigolion wrth wneud dewisiadau ynghylch eu gofal a'u diogelwch.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. datblygu arferion a chynnal perthynas ag unigolion a chydweithwyr a sefydliadau perthnasol
2. rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynorthwyo unigolion i wneud dewisiadau gwybodus am y gofal a'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, cydweithwyr perthnasol a sefydliadau i hyrwyddo dewis yr unigolyn am eu gofal
4. cynorthwyo unigolion i gyfleu eu barn ar eu blaenoriaethau a'u gofynion sy'n gysylltiedig â'u gofal a'u diogelwch
5. datblygu atebion ac arferion i fynd i'r afael â gwrthdaro a chyfyng-gyngor wrth hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau'r unigolyn
6. cael cymorth perthnasol a'i ddefnyddio pan fydd gwrthdaro na allwch ei ddatrys neu gyda meysydd gwaith sydd y tu allan i gwmpas eich cyfrifoldeb
7. hyrwyddo hawliau unigolion i roi adborth ar eu gofal a sicrhau cyngor, cymorth ac eiriolaeth annibynnol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am eu bywydau a'u dyfodol
8. cynorythwyo'r rhai sydd angen cymorth i arfer eu hawliau
9. cynorthwyo unigolion i nodi dulliau rheoli risgiau, cytuno arnynt a'u defnyddio i ddiogelu eu hunain rhag perygl, niwed a cham-driniaeth
10. cytuno gydag unigolion, cydweithwyr perthnasol a sefydliadau ar y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd sefyllfaoedd ac ymddygiad yn digwydd a allai arwain at beryglu a cham-drin eu hunain
11. cadarnhau eich bod chi a'r rhai rydych chi'n gweithio gyda nhw yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer amddiffyn unigolion a diogelu data, a'i deall
12. cymryd camau, yn unol â gweithdrefnau cyfreithiol a sefydliadol perthnasol lle rydych yn sylwi ar arwyddion a symptomau perygl, niwed a cham-driniaeth neu lle mae hyn wedi'i ddatgelu gan gydweithwyr neu sefydliadau perthnasol
13. sicrhau nad yw eich gweithredoedd gyda chwsmeriaid, cydweithwyr a sefydliadau perthnasol yn cael effaith andwyol ar sut y defnyddir tystiolaeth mewn ymchwiliadau yn y dyfodol ac mewn achosion llys
14. cadarnhau bod cofnodion ac adroddiadau yn cydymffurfio â

chytundebau cyfrinachedd ac yn cael eu hysgrifennu yn unol â gweithdrefnau sefydliadol a gofynion cyfreithiol perthnasol, ac nad ydynt yn cael effaith andwyol ar sut y defnyddir tystiolaeth mewn ymchwiliadau yn y dyfodol ac mewn achosion llys

15. trosglwyddo adroddiadau a gwybodaeth berthnasol am achosion tybiedig o gam-drin mewn cytundebau cyfrinachedd ac yn unol â gofynion cyfreithiol, sefydliadol, rhyngasiantaethol a phartneriaeth perthnasol
16. cael cyngor, gwybodaeth, arweiniad a chymorth arbenigol pan na allwch roi'r cymorth sydd ei angen i amddiffyn unigolion
17. datblygu strategaethau a systemau i ddelio â'ch meddyliau a'ch teimladau a myfyrio ar arferion
18. darparu adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghylch newidiadau sy'n ofynnol i systemau a strwythurau sefydliadol ar gyfer amddiffyn unigolion. Mae'r rhain yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau, cytundebau cyfrinachedd, a'r gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac iechyd a diogelwch
2. sut mae'n rhaid i'ch sefydliad gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ym maes diogelu data
3. y mathau o ddulliau a'r ffyrdd o weithio sy'n cynorthwyo cydraddoldeb ac amrywiaeth a hawliau unigolion i gyfathrebu yn y ffordd, y cyfryngau a'r iaith sydd orau ganddynt
4. sut i gadarnhau eich bod chi a'r staff yr ydych yn gyfrifol amdanynt, yn diogelu hawliau a buddiannau unigolion
5. y codau ymarfer ac ymddygiad perthnasol, a safonau a chanllawiau sy'n ymwneud â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau a rôl cydweithwyr a sefydliadau perthnasol wrth ddatblygu arferion sy'n hyrwyddo dewis, lles ac amddiffyn unigolion
6. cynlluniau llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig sy'n effeithio ar arferion y sefydliad i hyrwyddo dewis a lles unigolyn a'u hamddiffyn
7. y polisïau, y gweithdrefnau, y canllawiau a'r protocolau perthnasol gyda'r sefydliadau a'r proffesiynau eraill yr ydych yn gweithio gyda nhw sy'n ymwneud â hyrwyddo dewis a lles unigolion a'u hamddiffyn
8. y trefniadau er mwyn i chi ddarparu a derbyn goruchwyliaeth ac arfarniad a'u diben
9. sut a ble i gael gafael ar lenyddiaeth, gwybodaeth a chymorth i lywio eich arferion eich hun a'ch cydweithwyr ynghylch hyrwyddo dewis a lles unigolion a'u hamddiffyn
10. cyflyrau corfforol, emosiynol ac iechyd yr unigolion yr ydych chi, cydweithwyr a sefydliadau perthnasol yn gweithio gyda nhw a sut mae'r cyflyrau hyn yn effeithio ar ymddygiad yr unigolyn
11. sut i fod yn fentor i gynorthwyo staff i ddatblygu arferion wrth gyfathrebu ac ymgysylltu ag unigolion, a chynnwys unigolion wrth asesu, cynllunio, gweithredu, adolygu gwasanaethau a chynlluniau iechyd a gofal, gan ystyried eu gofynion, eu barn a'r hyn sydd orau ganddynt
12. y ffactorau sy'n achosi risgiau a'r rhai sy'n cadarnhau gofal diogel i unigolion
13. y camau i'w cymryd pan fyddwch chi, cydweithwyr a sefydliadau perthnasol yn tybio bod perygl, niwed a cham-driniaeth, lle cafodd

ei ddatgelu, a sut i gofnodi digwyddiadau a datgeliadau ac adrodd amdanynt

14. y mathau o dystiolaeth sy'n ddilys mewn ymchwiliadau ac achosion llys,
15. y defnydd o dystiolaeth mewn cofnodion ac adroddiadau a pham mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y rhain a nodi ffynhonnell y dystiolaeth

INSHOU48

Datblygu arferion sy'n hyrwyddo dewis a lles pob unigolyn a'u hamddiffyn

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	SFHH416
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; datblygu; cynnal; gwerthuso; cymorth; hyrwyddo; hawliau;